**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Medi 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Hydref 2025 |

**PWNC**

Eitem 6:CYNLLUN YNNI LLEOL

**PENDERFYNIAD**

1. Cefnogwyd Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd, gan ddeall bod y Camau Gweithredu ac Argymhellion a neilltuwyd i Gyngor Gwynedd yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol.

2. Cytunwyd y bydd angen datblygu mecanwaith llywodraethu a monitro ar gyfer y Camau Gweithredu ac Argymhellion ar y cyd ag Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru, a dod â'r trefniadau hynny yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo. Dylai'r fecanwaith arwain at:
   - Cytuno ar strwythur llywodraethu
   - Alinio Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru (a'r cynllun gweithredu) â'r Cynllun Ynni Ardal Leol
   - Alinio'r Cynllun Ynni Ardal Leol gyda chynlluniau ynni cenedlaethol all gael eu datblygu gan NESO (National Energy System Operator) ar ran Llywodraeth Cymru
   - Nodi dangosyddion perfformiad allweddol
   - Ffurfio Grŵp Llywio Rhanbarthol

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Mae Cyngor Gwynedd, drwy ein Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."
2. Ym Mawrth 2021 cymeradwyodd Senedd Cymru darged sero net Cymru gyfan ar gyfer 2050, gyda thargedau interim o leihad mewn allyriadau carbon o 63% erbyn 2030 a 89% erbyn 2040. Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) er mwyn cyfrannu at y targedau cenedlaethol yma.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU**

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cyng. Paul Rowlinson gan ei fod ar Fwrdd Ynni Ogwen, a gan y Cyng. Menna Trenholme gan ei bod yn gyfarwyddwr ar Gwyrfai Gwyrdd. Nodwyd bod y rolau hyn yn rai gwirfoddol felly nid oedd y buddiannau’n rhagfarnu, a ni wnaethant adael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Medi 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Hydref 2025 |

**PWNC**

Eitem 7: CYNNAL PLEIDLAIS ARDALOEDD GWELLA BUSNES BANGOR

**PENDERFYNIAD**

1. Nodwyd bod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan Gwmni Ardal Gwella Busnes Bangor wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;
2. Cyfarwyddwyd y Swyddog Canlyniadau gan y Cabinet i gynnal pleidlais AGB Bangor;
3. Cymeradwywyd y trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;
4. Dirprwywyd yr hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.
5. Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus ym Mangor, ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyir hawl i Bennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â phenaethiaid yr adrannau canlynol i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymarferol a'r Cytundeb Gwaelodlin a chwblhau y cytundebau yn unol a threfniadau y Cyngor:
• Amgylchedd
• Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
• Cyfreithiol
• Cyllid.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Fe nodir yn Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi y broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

2. Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd :

- Mae’r cynnig AGB Bangor yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae’r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi sefydliad yr AGB er mwyn rhoi’r gallu iddynt wireddu’r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai’r AGB arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Bangor
- Byddai’r AGB yn gyfrwng i gydweithio gyda’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.
  Nid oes sail i weithredu y feto statudol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Medi 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Hydref 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 8: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

---

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd cynnwys a chymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2024-25, Cynllun Cydraddoldeb 2024-28.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae hefyd yn ymarfer da o fewn y Cyngor i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r cynnydd.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Medi 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Hydref 2025 |

## PWNC

Eitem 9 :CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

## PENDERFYNIAD

1. Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2026/27 – 2028/29.
2. Comisiynwyd y Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o opsiynau, fel amlinellir yn rhan 4 a 5 o'r adroddiad, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn ein cyllideb dros y tair mlynedd nesaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn gosod allan y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026.
2. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.
3. Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ystyried y gwaith sydd ei angen er mwyn creu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2026/27 – 2028/29, ac i lywio'r gwaith sydd ei angen.
4. Ni ddisgwylir i'r Cyngor gael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2026/27 tan o leiaf fis Tachwedd 2025, ond gyda'r rhagolygon fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn bwriadu rhoi cynnydd o 2% ar holl benawdau gwariant cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2026/37 gallwn ddisgwyl cynnydd blynyddol yn ein setliad ariannol o oddeutu 1.5%, yn enwedig o ystyried yr ansefydlogrwydd posib fydd yn deillio o etholiadau'r Senedd ym Mai 2026.
5. Mae risg sylweddol, felly, o ansefydlogrwydd ariannol difrifol o beidio cymryd camau cynnar a phendant i ystyried y sefyllfa ac chymryd camau adfer.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Medi 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Hydref 2025 |

---

## PWNC

Eitem 10: BLAEN RAGLEN Y CABINET

---

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Blaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhyddhau ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Blaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

---